## Ffurflenni Ystadegol Blynyddol Gwasanaethau Tân ac Achub

## Diogelwch Tân Cymunedol 2022-23

**Mae'r Gyfarwyddiaeth Ystadegol y Llywodraeth Cymru yn casglu'r data yma.**

Mae canllawiau wedi'u cynnwys i'ch helpu chi i lenwi'r ffurflen

| | |
|---|---|
| Dewiswch eich iaith penodol / Choose your preferred language | Cymraeg/Welsh |
| **GWYBODAETH AM Y DARPARWR** | |
| Dewiswch eich GTA o'r rhestr darpared | Dewiswch eich GTA o'r rhestr darpared |
| Cofnodwch enw'r prif swyddog cyswllt sy'n ymwneud â'r ffurflen hon | |
| Cofnodwch rif ffôn y swyddog cyswllt yma | |
| Nodwch e-bost y swyddog cyswllt | |

### Dychwelwch y ffurflen trwy Afon cyn 09/06/2023

www.afonwales.org.uk

mailto:Data.Collection@gov.wales

Tabl 1 – Nifer y Gwiriadau Diogelwch Tân Cartrefi

Tabl 2 – Nifer yr atgyfeiriadau

Monitro byrdwn wrth ymateb arolygon

Canllawiau cyffredinol

ystadegau ar gyfer cymru statistics for wales

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Fersiwn 2 - 15/02/2023

## Monitro byrdwn wrth ymateb arolygon

Diogelwch Tân Cymunedol 2022-23

Dewiswch eich GTA o'r rhestr darpared

Yn ôl at yr Hafan

**Mae Llywodraeth Cymru yn monitro'r baich ar awdurdodau lleol sy'n cwblhau'r ffurflenni data. Mae hyn yn ein helpu ni i gynllunio newidiadau yn y dyfodol i ffurflenni casglu data. Fe fyddem yn gwerthfawrogi os gallech chi ein helpu ni drwy gwblhau'r tabl isod.**

Cofnodwch yr amser a gymerodd i chi (ac unrhyw gydweithwyr) ddarparu ac anfon y ffurflen. Efallai bod nifer o staff sydd wedi'u cyflogi mewn swyddi gwahanol wedi cymryd rhan. Rydym yn gofyn i chi gyfrif yr oriau mae staff wedi'u dreulio ar gyfer pob band cyflog blynyddol cyfwerth ag amser llawn wedi'i ddangos isod. Fe fyddwch angen talgrynnu cyflogau staff i'r £1,000 agosaf. Cofnodwch eich amser i'r awr agosaf.

Cynhwyswch amser sydd wedi'i dreulio ar weithgareddau yn darparu ac anfon y ffurflen hon, megis:

● Adalw a chadw'r ffurflen wag;

● Casglu, coladu, dadansoddi ac agregu cofnodion ffigyrau sydd angen;

● Llenwi, gwirio, diwygio, adolygu ac, ar ôl ei gwblhau, cymeradwyo'r ffurflen; ac

● Anfon y ffurflen i Gyfarwyddiaeth Ystadegol y Llywodraeth Cymru trwy AFON.

| Gradd y staff | Oriau wedi'u cymryd | **V1** |
|---|---|---|
| Band 1 (£11,500 - £19,999) | | C |
| Band 2 (£20,000 - £26,999) | | C |
| Band 3 (£27,000 - £33,999) | | C |
| Band 4 (£34,000 - £53,999) | | C |
| Band 5 (£54,000+) | | C |

**Sylwadau**

a

Yn ôl at yr Hafan

## Ffurflenni Ystadegol Blynyddol Gwasanaethau Tân ac Achub

## Canllawiau cyffredinol ar sut i gwblhau'r ffurflen

**LLYWIO**

Byddwch yn gallu symud o daenlen i daenlen wrth glicio ar y ddolen briodol.

Er enghraifft, cliciwch y ddolen i fynd i Tabl 1 — Tabl 1

Er enghraifft, cliciwch y ddolen 'Nôl i'r Hafan' i fynd yn ôl i'r hafan — Yn ôl at yr Hafan

**Eitemau Data Gofynnol**

Pan gewch y daenlen, lliwir y celloedd lle disgwylir i chi ddarparu eitemau data.
Lliwir holl gelloedd lle mae data yn ofynnol yn las golau

Mae rhai celloedd yn deillio gwerthoedd o eitemau data eraill. Lliwir y celloedd hyn gyda llwyd tywyll. Ni chaniateir i chi fewnosod data yn y celloedd hyn.

**Os nad ydych yn gallu darparu unrhyw eitem ddata, gadewch y gell YN WAG. Peidiwch â mewnosod unrhyw eiriau (Amherthnasol neu Heb eu casglu ayb) i unrhyw gell heblaw am y celloedd sylwadau. Byddwn yn cymryd yn ganiataol fod sero mewn unrhyw gell yn dynodi'r cyfrif sero am yr eitem ddata hon.**

Darparir lle gwag gwyn yn gyfagos i bob rhes ar bob tabl ar gyfer eich sylwadau ynglŷn â'r data ac ynglŷn ag absenoldeb data. Mae 'na le gwag gwyn hefyd ar waelod pob dalen ar gyfer sylwadau cyffredinol ynglŷn â'r ffurflenni.

**Dilysiad 1** — **V1**

Mae Dilysiad 1 yn cynnwys chwilio am wallau sylfaenol. Rhaid datrys y gwallau hyn cyn cyflwyno’r daenlen trwy Afon.

| | |
|---|---|
| Caiff eitemau data sy'n torri rheol dilysiad neu sydd heb eu cyflenwi eu lliwio'n goch. | C |
| Caiff eitemau data sydd ar goll gyda sylwadau sy'n esbonio eu habsenoldeb eu lliwio'n oren. | M |
| Caiff cofnodion data cyflawn sydd wedi cwrdd â'r rheolau dilysu eu lliwio'n wyrdd. | √ |

Yn ôl at yr Hafan

## Canllawiau ar Wiriadau Diogelwch Tân Cartrefi

**Tabl 1 – Nifer y Gwiriadau Diogelwch Tân Cartrefi**

**1. Cwblhawyd gan :-**

a. Staff GTA sy'n gweithredu o orsaf – pan fo diffoddwyr tân sy'n gweithredu o orsaf yn ymgymryd â phrif elfen unrhyw ddarpariaeth – hyd yn oed os oes peth mewnbwn gan staff eraill y GTA.

b. Staff eraill y GTA – pan fo staff ar wahân i ddiffoddwyr tân sy'n gweithredu o orsaf yn ymgymryd â phrif elfen unrhyw ddarpariaeth.

**Newydd ar gyfer 2021-22**

Darparwch ddadansoddiad o sut y cynhaliwyd yr Archwiliadau, p'un a ydynt wedi'u cynnal fel Gwiriadau Ffôn/Rhithwir neu a wnaethpwyd ymweliadau Corfforol â'r eiddo. Dylai'r cyfansymiau hyn fod yn hafal i gyfanswm nifer yr Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref a gwblhawyd gan staff Gorsaf y Gwasanaethau Tân ac Achub neu Staff Arall y Gwasanaethau Tân ac Achub fel y nodir yn Rhesi 1 a 2 yn y tabl.

**2. Cyfanswm nifer y Gwiriadau Diogelwch Tân Cartrefi -**

Cyfrifwch y rhai hynny a gwblhawyd yn unig (Dros y ffôn/rhithwir neu wyneb yn wyneb yn yr eiddo ) yn y flwyddyn rhwng 01 Ebrill a 31 Mawrth, hyd yn oed os cawsant eu hatgyfeirio, os gofynnwyd amdanynt, os cawsant eu cynllunio neu hyd yn oed os cawsant eu cychwyn cyn 01 Ebrill. Yn yr un modd, rhaid i'r cyfanswm hwn beidio â chynnwys unrhyw rai a gafodd eu cychwyn ond na chawsant eu cwblhau erbyn 31 Mawrth, gan y bydd y rhain yn cael eu cyfrif mewn cyfansymiau blwyddyn ddilynol o ran y Gwiriadau Diogelwch Tân Cartrefi a gwblhawyd. Pan fo GDTC wedi cynnwys mwy nag un ymweliad, dylech gyfrif dim ond yr achosion pan ystyriwyd bod y GDTC wedi'i gwblhau.

**3. … a gafodd eu hatgyfeirio i'r GTA**

Nifer y Gwiriadau Diogelwch Tân Cartrefi a gwblhawyd (fel yn ôl y golofn gyntaf) a ddeilliodd o atgyfeiriad gan sefydliad arall o dan drefniadau cydweithredol ffurfiol neu anffurfiol rhwng y sefydliad hwnnw a'r GTA.

**4. … y gofynnwyd amdanynt**

Nifer y Gwiriadau Diogelwch Tân Cartrefi a gwblhawyd (fel yn ôl y golofn gyntaf) a ddeilliodd o gais i'r GTA gan e.e. deiliad y tŷ, cymydog, ffrind, aelod o'r teulu, gofalwr (heb fod yn rhan o drefniant atgyfeirio ffurfiol). Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, geisiadau i rif ffôn ddi-dâl, a cheisiadau a wnaed mewn stondin mewn sioe neu eisteddfod.

**5. … a gafodd eu cychwyn gan y GTA**

Nifer y Gwiriadau Diogelwch Tân Cartrefi a gwblhawyd (fel yn ôl y golofn gyntaf) a ddeilliodd o waith cynllunio, ymgyrchoedd, gweithgareddau ynghylch mannau problemus, ac yn y blaen, a wnaed gan y GTA ei hun.

**6. Cyfanswm nifer y Gwiriadau Diogelwch Tân Cartrefi a gwblhawyd pan oedd yn hysbys fod un ffactor risg neu ragor yn bresennol**

Dylid cyfrif ffactor risg dim ond pan ganfyddir bod o leiaf 1 aelod o'r aelwyd yn dangos y risg hon. Gellir canfod risgiau fel rhan o'r broses atgyfeirio, yn ôl yr hyn a nodir gan y preswylydd, neu yn ôl yr hyn a arsylwir. Mae risgiau'n cynnwys :-

- Oedran – pan oedd o leiaf 1 preswylydd yn 65 oed neu'n hŷn ar y diwrnod y cwblhawyd y GDTC
- Nam ar y synhwyrau neu o ran symudedd
- Problem iechyd meddwl neu anhawster dysgu
- Defnydd o alcohol neu gyffuriau/dibyniaeth arnynt
- Smygu
- Un Oedolyn yn bresennol yn yr Aelwyd (gan gynnwys rhieni sengl)
- Trais Domestig
- Unrhyw risg arall a nodwyd yn lleol (e.e. llety ar rent)

Cwblhewch "1 ffactor risg" pan fo 1 yn unig o'r pedwar ffactor risg uchod yn bresennol, yn ôl yr hyn sy'n hysbys; cwblhewch "2 ffactor risg" pan fo 2 yn unig o'r 4 ffactor risg yn bresennol, yn ôl yr hyn sy'n hysbys, ac yn y blaen.

**7. Cyfanswm nifer y Gwiriadau Diogelwch Tân Cartrefi a gwblhawyd a oedd hefyd yn cynnwys cwblhau gweithgaredd atal nad oedd yn ymwneud â thân**

Wedi'u cwblhau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r GTA ei hun e.e. gwirio i ganfod peryglon baglu neu roi cyngor ar ddiogelwch. Ni fyddai cyngor ar leihau achosion o danau bwriadol yn cael ei gynnwys yma oherwydd byddai'n cael ei ystyried yn weithgaredd atal tân.

**8. Cyfanswm nifer y Gwiriadau Diogelwch Tân Cartrefi a olygodd fod y GTA yn gwneud atgyfeiriad ymlaen at sefydliad arall.**

O'r cyfanswm yng ngholofn 1, faint a olygodd fod y GTA yn trosglwyddo'r enw a/neu'r cyfeiriad i sefydliad arall o dan drefniant ffurfiol rhwng y sefydliad hwnnw a'r GTA

**Tabl 2: Atgyfeiriadau HFSC i'r FRS**

Rhowch nifer yr HFSCs sydd wedi cael eu cyfeirio at y Gwasanaethau Tân ac Achub gan y gwasanaethau a restrir isod rhwng 01 Ebrill a 31 Mawrth:
Cwblhawyd gan yr Heddlu
Cwblhawyd gan y GIG
Cwblhawyd gan Awdurdodau Lleol
Cwblhawyd gan Ddarparwyr Trydydd Sector

**Tabl 1**
**Nifer yr Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref**

| | | Nifer yr Archwiliadau HFSC sydd wedi'u cwblhau | Nifer yr Archwiliadau HFSC a gyfeiriwyd at y Gwasanaethau Tân ac Achub | Nifer yr HFSC y gofynnwyd amdanynt | Nifer yr HFSCs a gychwynnwyd gan yr FRS | Cyfanswm nifer y Gwiriadau Diogelwch Tân Cartrefi a gwblhawyd pan oedd yn hysbys fod un ffactor risg neu ragor yn bresennol | | | | Cyfanswm nifer y Gwiriadau Diogelwch Tân Cartrefi a gwblhawyd a oedd hefyd yn cynnwys cwblhau gweithgaredd atal nad oedd yn ymwneud â thân | Cyfanswm nifer y Gwiriadau Diogelwch Tân Cartrefi a olygodd fod y GTA yn gwneud atgyfeiriad ymlaen at sefydliad arall | V1 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | 1 ffactor risg | 2 ffactor risg | 3 ffactor risg | 4 ffactor risg neu ragor | | | | |
| | 2022-23 | a | b | c | d | e | f | g | h | i | j | a | |
| 1 | Cwblhawyd gan staff GTA sy'n gweithredu o orsaf | | | | | | | | | | | C | |
| 10 | Nifer yr Archwiliadau a gwblhawyd dros y ffôn/gwiriadau rhithwir | | | | | | | | | | | C | |
| 11 | Nifer yr Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref a gwblhawyd yn ôl ymweliadau ffisegol â'r safle | | | | | | | | | | | C | |
| 5 | Dylai'r cyfansymiau fod yn gyfartal â Rhes 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | | | | | | | √ | |
| 2 | Cwblhawyd gan staff eraill y GTA | | | | | | | | | | | C | |
| 7 | Nifer yr Archwiliadau a gwblhawyd dros y ffôn/gwiriadau rhithwir | | | | | | | | | | | C | |
| 8 | Nifer yr Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref a gwblhawyd yn ôl ymweliadau ffisegol â'r safle | | | | | | | | | | | C | |
| 6 | Dylai'r cyfansymiau fod yn gyfartal â Rhes 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | | | | | | | √ | |
| 9 | Cyfanswm Cyffredinol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | √ | |

Sylwadau

**Tabl 2**

## Atgyfeiriadau HFSC i'r FRS

| | | Nifer yr Archwiliadau HFSC sydd wedi'u cwblhau | V1 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | **2022-23** | a | | |
| **1** | **Cwblhawyd gan yr Heddlu** | | C | |
| 2 | **Cwblhawyd gan y GIG** | | C | |
| 3 | **Cwblhawyd gan Awdurdodau Lleol** | | C | |
| 4 | **Cwblhawyd gan Ddarparwyr Trydydd Sector** | | C | |
| **5** | **Cyfanswm** | 0 | √ | |

Sylwadau

| |
|---|
| |